Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

# Gweithredu diwygiadau addysg: 3ydd cyfnod monitro

## Crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliadau ag ysgolion

Haf 2024

Mae'r adroddiad hwn yn nodi crynodeb o ganfyddiadau ymweliadau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ag ysgolion yn ystod tymor yr haf 2024.

Mae'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau pedwar ymweliad ar wahân a gynhaliwyd gan aelodau o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg â'r ysgolion a ganlyn:

- Ysgol Gymunedol Llangatwg, Castell-nedd (25 Ebrill)
- Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Coed-duon (25 Ebrill)
- Ysgol Gynradd Sandfields, Port Talbot (25 Ebrill)
- Ysgol y Deri, Penarth (2 Mai)

Er mwyn sicrhau nad enwir yr ysgolion, nid yw'r adroddiad cryno hwn yn nodi o ba ysgol unigol y daeth unrhyw sylwadau oni bai ein bod wedi cael caniatâd penodol ganddi i wneud hynny.

# 1. Y system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Ar y cyfan, clywsom adborth cadarnhaol am fwriad polisi'r Ddeddf ADY. Fodd bynnag, clywsom ddryswch ynghylch sut i gymhwyso'r diffiniad o ADY, a phryderon ynghylch goblygiadau'r Ddeddf ar gyfer capasiti staff a chyllid. Mae hyn wedi golygu nad yw pob disgybl ar hen gofrestrau AAA ysgolion yn cael eu cydnabod fel rhai ag ADY nac yn cael Cynlluniau Datblygu Unigol o dan y system newydd. Clywsom bryderon cyson hefyd am lefel y cymorth y mae cyrff iechyd yn ei gynnig i ysgolion, sy'n hanfodol i addysg rhai disgyblion.

## Symud o'r system AAA i'r system ADY newydd

### Y cyfnod pontio

Clywsom yn gyson, yn ystod y cyfnod pontio, fod angen i Gydlynwyr ADY dreulio llawer o amser yn siarad â theuluoedd plant a oedd ar yr hen gofrestr AAA i drafod anghenion eu plant, a ellid diwallu'r anghenion hynny drwy addysgu gwahaniaethol, ac, os na ellid gwneud hynny, pa ddarpariaeth ychwanegol y dylai'r ysgol ei threfnu.

Dywedodd nifer o ysgolion wrthym ei bod yn cymryd llawer o amser i ysgrifennu pob CDU a'i ledaenu ar draws aelodau perthnasol o staff yr ysgol. Mae'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â phob CDU yn llawer mwy na'r llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â phlentyn ar y gofrestr AAA heb ddatganiad.

Dywedodd Ysgol y Deri wrthym fod gan bob un o'i disgyblion CDU sy'n cael ei gynnal gan yr awdurdod lleol. Yr ysgol sy'n ysgrifennu'r CDUau. Er mwyn helpu gyda'r llwyth gwaith hwn, mae'r ysgol wedi cyflogi rhywun sydd â gwybodaeth gyfreithiol am y Ddeddf a helpodd i drosi'r holl ddatganiadau AAA o dan yr hen system yn CDUau. Mae hefyd wedi helpu i hyfforddi staff i ddeall eu rolau o dan y Ddeddf.

### Staffio

Roedd yr holl ysgolion prif ffrwd yr ymwelwyd â nhw wedi cynyddu capasiti eu tîm Cydlynwyr ADY i ymdopi â'r llwyth gwaith ychwanegol sy'n deillio o'r system ADY newydd. Mae gan un ysgol 2 Gydlynydd ADY: un Cydlynydd amser llawn nad yw'n addysgu, ac un cynorthwy-ydd rhan-amser (addysgu). Mae gan un arall dîm o arbenigwyr ADY, gan gynnwys Cydlynydd ADY, Dirprwy Gydlynydd ADY a chynorthwywyr addysgu amrywiol. Esboniodd un fod angen rhoi amser am gyfarfodydd rheolaidd ar gyfer CDUau mewn ysgolion yn barhaus. Mae hyn yn golygu bod galw mawr am amser staff.

Dywedodd dwy o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw wrthym fod angen gwneud rhagor o waith i roi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar ysgolion i dalu gwahanol fathau o staff sy'n gweithio mewn timau ADY yn deg, megis:

- Cydlynwyr ADY nad ydynt yn treulio unrhyw amser yn y dosbarth.

- Staff cymorth (cynorthwywyr addysgu) sy'n darparu cymorth ADY arbenigol i'r Cydlynydd ADY.

Clywsom ni alwadau am fwy o hyfforddiant ar y system ADY newydd. Roedd nifer o ysgolion yn dadlau y byddai rhagor o amser hyfforddi pwrpasol – fel diwrnodau HMS – yn hynod fuddiol i staff. Roedd un ysgol yn adlewyrchu'n gadarnhaol ar y dull a ddefnyddir yng Ngogledd Iwerddon, lle gall ysgolion gymryd hyd at 10 diwrnod HMS yn ystod blwyddyn ysgol 2024-25 at ddiben hyfforddi staff.

### Adnoddau

Eglurodd un ysgol wrthym fod y galw cynyddol am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o dan y Ddeddf, ynghyd â'r amgylchedd ariannol heriol i ysgolion, yn golygu bod angen i'r ysgol rannu darpariaeth ar draws disgyblion â CDUau pan fo hynny'n bosibl ac yn briodol. Eglurodd y byddai'n amhosibl rhoi darpariaeth gwbl bwrpasol i bob plentyn.

Clywsom alwadau am un gyfres o hyfforddiant ar CDUau ADY ac un gyfres o adnoddau yn y Gymraeg i'w defnyddio ledled Cymru. Dywedodd un ysgol wrthym fod llu o wybodaeth a deunyddiau hyfforddi ar gael i athrawon, ond nad oes llawer ohonynt wedi'u cyfieithu. Hefyd, mae ar ddysgwyr angen llyfrau sy'n briodol i'w hoedran o ran cynnwys, ond sydd ar gyfer oedran darllen wedi'i deilwra i blant ag anghenion ychwanegol.

## Cymhwyso'r diffiniad o ADY

Thema allweddol ar draws ein hymweliadau oedd bod y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â datblygu, cynnal a gweithredu pob CDU yn golygu nad oes gan ysgolion prif ffrwd yr amser staff na'r adnoddau ariannol i ddarparu CDU i bob plentyn a oedd gynt ar gofrestr AAA yr ysgol. Eglurodd un ysgol fod rhaid i ysgolion 'dorri'r gôt yn ôl y brethyn'.

Dywedodd un ysgol wrthym fod ei hawdurdod lleol wedi nodi y dylai unrhyw blentyn sy'n cael ymyrraeth am dros 12 wythnos gael CDU. Byddai hynny'n golygu, yn yr ysgol benodol hon, y byddai tua thraean disgyblion yn cael CDU, nad yw'n ymarferol.

Mewn cysylltiad ag ADY, roedd yr ysgolion prif ffrwd yr ymwelwyd â hwy yn tueddu i gategoreiddio dysgwyr yn dri grŵp eang:

- **Grŵp 1**: Dysgwyr y mae eu hanghenion addysgol yn cael eu diwallu'n llawn gan y ddarpariaeth sydd fel arfer ar gael i bob disgybl. Nid ystyrir bod gan y dysgwyr hyn ADY, ac nid oes angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt.

- **Grŵp 2**: Dysgwyr y mae eu hanghenion addysgol yn wahanol i'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r un oedran, ond nad oes ganddynt CDU. Gall hyn fod naill ai oherwydd a) nad ystyrir bod ganddynt ADY ond bod ganddynt anghenion ymddygiadol, cymdeithasol a/neu emosiynol eraill, neu b) yr ystyrir bod ganddynt fwy o anawsterau dysgu, ond bod yr ysgol yn credu y gellir diwallu eu hanghenion drwy ddarpariaeth sydd fel arfer ar gael neu 'ddarpariaeth gyffredinol'. Mewn llawer o achosion, barnwyd bod gan ddysgwyr yn y grŵp hwn AAA o dan y system flaenorol.

- **Grŵp 3**: Dysgwyr sydd wedi cael eu cydnabod fel rhai ag ADY, y mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt i ddiwallu'r anghenion hynny, ac sydd felly â CDU. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys dysgwyr â CDUau a gynhelir gan eu hysgol, a dysgwyr â CDUau a gynhelir gan eu hawdurdod lleol.

Dywedodd rhai o'r ysgolion wrthym fod yr ail grŵp yn cynnwys disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i roi hwb i'w sgiliau sylfaenol, fel materion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Clywsom gan ddwy ysgol fod problemau ymddygiadol yn aml yn cael eu camgymryd am ADY oherwydd gall fod yn anodd gwahaniaethu rhyngddynt.

Ar y cyfan, roedd ysgolion yn teimlo bod ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth a gynigir i bob plentyn - a elwir yn aml yn 'ddarpariaeth gyffredinol' – yn allweddol i ddiwallu anghenion llawer o blant y gellid barnu bod ganddynt ADY fel arall. Dadleuodd un ysgol fod angen amser arnom i addysgu staff prif ffrwd am ADY fel bod darpariaeth gyffredinol yn ystyried anghenion *pob* disgybl. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant athrawon yn allweddol i ymgorffori'r meddylfryd hwnnw.

Eglurodd un ysgol wrthym sut mae ei hawdurdod lleol yn penderfynu pa ddisgyblion sydd â CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yn hytrach na'r ysgol. Yn gyffredinol, os oes angen llai na 25 o oriau o amser Cynorthwy-ydd Dysgu yr wythnos ar y disgybl, yr ysgol sy'n cynnal y CDU. Os oes angen mwy na 25 o oriau ar y disgybl, yr awdurdod lleol sy'n cynnal y CDU.

## Cymorth gan yr awdurdod lleol, consortia rhanbarthol a gwasanaethau iechyd

### Cymorth gan yr awdurdod lleol

Clywsom fod gwahanol awdurdodau lleol yn cynnig gwahanol lefelau o gymorth i'w hysgolion, a bod ansawdd y cymorth hwnnw'n amrywio hefyd.

Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan yr awdurdod lleol. Roedd un yn teimlo ei bod, yn gyffredinol, yn cael cymorth pwrpasol o ansawdd uchel. Dywedodd eraill wrthym fod eu hawdurdod lleol yn darparu cymorth mewn perthynas ag ADY, yn hytrach na'r consortia rhanbarthol. Ychwanegwyd bod ganddynt berthynas gadarnhaol â staff ADY yr awdurdod lleol.

Fodd bynnag, dywedodd un ysgol wrthym fod diffyg capasiti ac adnoddau yn glir o fewn ei hawdurdod lleol. Sylwodd un arall, er bod ganddi hi berthynas ardderchog â'i hawdurdod lleol, nad oes perthynas o'r fath gan bob ysgol mewn awdurdodau lleol eraill.

Eglurodd un ysgol wrthym, er bod yr ysgol yn arwain cyfarfodydd ynghylch disgyblion sydd â CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol gael ei hysbysu i fynychu'r cyfarfodydd hynny. Dywedodd yr ysgol wrthym fod cynrychiolydd awdurdod lleol fel arfer yn mynychu, a'i fod yn gefnogol iawn ar y cyfan.

## Cymorth gan gyrff iechyd

Ar y cyfan, roedd yr ysgolion prif ffrwd y buom yn siarad â nhw yn teimlo nad oeddent yn cael digon o gymorth gan gyrff iechyd. Ysgol y Deri, ysgol arbennig, oedd yr allanolyn: dywedwyd wrthym, oherwydd natur anghenion ei disgyblion, ei bod yn gyffredinol yn gallu cael y ddarpariaeth iechyd sydd ei hangen arnynt.

Esboniodd un ysgol brif ffrwd, er nad yw'n ei chael yn rhy anodd cael cymorth ar gyfer y plant sydd â'r anghenion mwyaf, mae fel arfer yn cymryd rhagor o amser i gael cymorth iechyd ar gyfer y plant â lefel is o anghenion.

> *"You have parents crying out for assessment and support, and the waiting list can be so long."*

O ganlyniad, roedd yn teimlo bod rhaid i'r ysgol wneud gwaith y dylai cyrff iechyd fod yn ei wneud i ddiwallu anghenion iechyd sylfaenol eu disgyblion gan nad oes gan y cyrff iechyd y gallu i wneud hynny.

Cytunodd ysgolion eraill, gan ddweud wrthym am gyfnodau aros hir iawn am wasanaethau iechyd, gan gynnwys CAMHS, therapi lleferydd ac iaith a therapi galwedigaethol.

Dywedodd un ysgol wrthym fod ei bwrdd iechyd yn anhyblyg ac yn defnyddio tactegau oedi i wrthod atgyfeiriadau. O ganlyniad, i ryw raddau bu rhaid i'r ysgol ddarparu cymorth iechyd meddwl i blant yn annibynnol.

Rhannodd un ysgol ei rhwystredigaeth bod rhaid gwneud atgyfeiriadau ysgolion am gymorth iechyd drwy eu hawdurdod lleol o dan y Ddeddf. Gall hyn achosi oedi. Roedd yr ysgol yn teimlo nad yw'n ymddangos bod rôl SACDA yn helpu i wneud y broses honno'n fwy effeithlon.

Dywedodd rhai ysgolion wrthym eu bod yn cael trafferth rhoi'r ddarpariaeth gywir ar waith ar gyfer rhai plant ag anghenion ychwanegol nad ydynt wedi cael diagnosis. Roedd un ysgol yn teimlo nad oedd gan ei staff hyfforddiant addas i ddiwallu anghenion y disgyblion hyn. Soniodd un arall am bwysau ariannol ceisio diwallu anghenion disgyblion heb ddiagnosis, nad yw'r ysgol yn cael unrhyw gyllid ychwanegol ar eu cyfer.

Dywedodd un pennaeth wrthym nad yw'r cyfaddawd yn y Ddeddf ADY (pan fo rhaid i fyrddau iechyd benderfynu a oes gwasanaeth neu driniaeth a fyddai o fudd ac, os felly, rhaid ei sicrhau) yn gweithio yn y bôn. Mae byrddau iechyd yn tueddu i ddweud mai materion addysgol yw'r hyn y mae ysgolion yn ei godi gyda nhw, ac maent yn gwrthod gweithredu.

### Cymorth gan ysgolion arbennig

Dywedodd Ysgol y Deri wrthym ei bod yn gwneud llawer o waith gydag ysgolion prif ffrwd, gan gynnig hyfforddiant i'w helpu gyda'i darpariaeth ADY.

## Ymgysylltu a chysylltu â rhieni

Roedd yr holl ysgolion y buom yn siarad â nhw yn cytuno bod y system ADY yn canolbwyntio mwy ar blant, ac wedi sicrhau gwell ymgysylltu â rhieni.

Fodd bynnag, nododd ysgolion hefyd fod yr ymgysylltiad hwn yn effeithio'n sylweddol ar amser staff. Dywedodd un Cydlynydd ADY wrthym fod bron i bob rhiant yn derbyn gwahoddiadau'r ysgol i ddod i'r ysgol i siarad â'r Cydlynydd ADY a chyfrannu at y CDU – sy'n amlwg yn gadarnhaol iawn. Prif bwrpas y cyfarfodydd hyn yw sicrhau bod gan y Cydlynydd ADY amser i siarad â phob teulu i drafod a ellid diwallu anghenion eu plentyn drwy addysgu gwahaniaethol, ac os na ellid gwneud hynny, pa ddarpariaeth ychwanegol y dylai'r ysgol ei threfnu. Ond mae hynny wedi golygu bod ei Chydlynwyr ADY wedi cynnal 190 o gyfarfodydd â rhieni yn y flwyddyn gyntaf yn unig. Ychwanegodd y dylid rhoi amser hefyd i gynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod CDUau mewn ysgolion ar sail barhaus, sy'n rhoi galw enfawr ar amser staff. Ychwanegwyd bod yr ysgol wedi dweud wrth y rhieni a bod y rhieni wedi deall ar y cyfan na fyddai eu plentyn yn cael CDU er ei fod ar y gofrestr AAA.

Dywedodd ysgol arall wrthym fod gan rai rhieni ddisgwyliadau afrealistig o ran i ba raddau y gall yr ysgol ddiwallu anghenion personol iawn pob dysgwr ar yr un pryd.

Clywsom gan un ysgol fod y system ADY newydd wedi dod yn fwy cyfreithgar, yn groes i'r bwriad polisi. Mae awdurdodau lleol yn cymryd mwy o ran yn achosion y Tribiwnlys, gan nad ydyn nhw nac ysgolion yn gweithredu'r Ddeddf yn gyson.

## Trosglwyddo disgyblion ag ADY o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Pwysleisiodd ysgolion cynradd ac uwchradd bwysigrwydd proses bontio gadarn i blant ag ADY. Teimlai un ysgol y dylid cynnal cyfarfodydd pontio ar gyfer pob plentyn, p'un a ydynt ar y gofrestr ADY ai peidio. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r plant hynny sydd ag ADY, ond nad oes ganddynt CDU oherwydd bod yr anghenion hynny'n cael eu diwallu drwy addysgu gwahaniaethol. I'r disgyblion hynny, mae'r cyfnod pontio'n hanfodol oherwydd nad oes cofnod ffurfiol o anghenion y plentyn y gellir eu trosglwyddo i ysgol uwchradd yn ystod y cyfnod pontio (fel y byddai pe bai gan y plentyn CDU).

Ond, ar y cyfan, clywsom nad oes digon o amser ar gyfer pontio, i staff cynradd nac i staff uwchradd.

Siaradodd un ysgol â ni am yr effaith i ddisgyblion sy'n dechrau mewn ysgolion uwchradd yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu bod rhaid i'r Cydlynydd ADY ruthro i roi darpariaeth ddigonol ar waith heb lawer o amser cynllunio.

Dywedodd ysgol arall wrthym y gall y model traddodiadol ar gyfer ysgolion uwchradd, pan fo plant yn symud o un dosbarth i'r llall, fod yn amhriodol yn y bôn i rai plant ag ADY, gan wneud  y broses bontio'n anodd iawn i rai disgyblion.

# 2. Diwygio'r cwricwlwm

Ar y cyfan, roedd ysgolion yn croesawu'r Cwricwlwm i Gymru, a dywedwyd yn gyson ei fod yn rhoi'r rhyddid i staff ganolbwyntio ar blant unigol yn hytrach nag ar feini prawf sy'n gysylltiedig ag oedran a bennwyd ymlaen llaw.

## Datblygu cwricwlwm

Dywedodd ysgolion eu bod wedi symud i ffwrdd o gwricwlwm traddodiadol sy'n seiliedig ar gynnwys i gwricwlwm sy'n seiliedig ar brofiad neu sgiliau.

Dywedodd un ysgol wrthym ei bod wedi cynllunio ei chwricwlwm gan ystyried profiadau yr oedd am i bob plentyn eu cael yn yr ysgol cyn iddynt adael. Mae'r cynlluniau gwersi yn sail i'r profiadau hynny. Dadleuodd yr ysgol fod cynnwys pwnc penodol yn bwysig. Ond, yn gyntaf, mae angen ichi addysgu plant sut i ddysgu a sut i brosesu gwybodaeth. Heb hynny, dywedwyd wrthym na fydd unrhyw beth a addysgir yn dal tir.

Clywsom fod y newid i'r cwricwlwm newydd yn newid sut beth yw bod yn athro. Dywedodd un pennaeth fod angen i athrawon gydnabod pwysigrwydd addysgu sgiliau trosglwyddadwy. Dywedodd un arall wrthym fod angen i athrawon ysgolion uwchradd, yn ei farn ef, ddod yn athrawon sgiliau, yn hytrach nag arbenigwyr pwnc yn unig.

Dywedodd Ysgol y Deri wrthym ei bod, fel ysgol arbennig, yn dilyn y camau cynnydd, ond yn unol â'r disgwyliadau sy'n addas i'r plentyn. Y brif her sydd ganddi yw nad yw llawer o'i disgyblion wedi cyrraedd Cam Dilyniant 1 (a ddisgwylir yn gyffredinol yn 5 oed) a gall rhai fod yn annhebygol o wneud hynny. Felly, rhaid gweithio ar lefelau cyn Cam Cynnydd 1. Dywedwyd wrthym y dylai fod rhywbeth cyn Cam Cynnydd 1 yn y Cwricwlwm i Gymru.

Clywsom gan un ysgol fod y diwrnod HMS ychwanegol ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn ddefnyddiol, ond nad oedd yn ddigon.

## Asesiad parhaus (ffurfiannol)

Dywedodd rhai ysgolion wrthym mai her o dan y cwricwlwm newydd yw asesu cynnydd plant yn gywir. Esboniodd un ysgol fod ysgolion, yn flaenorol, yn dibynnu ar ddata meintiol i fonitro cynnydd. Nawr, mae'r ffocws yn llawer mwy ar drafodaethau gydag athrawon a'r uwch-dîm arwain ynghylch cynnydd disgyblion unigol. Mae hynny'n gadarnhaol, yn golygu bod mwy o ffocws ar y plentyn ond yn cymryd llawer o amser.

Dywedodd ysgol arall wrthym mai asesu a chynnydd yw'r meysydd y mae wedi cael y trafferth mwyaf gyda nhw. Roedd yn teimlo nad oedd wedi cael digon o arweiniad o ran y ddau faes hyn.

Roedd rhai o'r ysgolion y buom yn siarad â nhw wedi prynu pecynnau asesu cynnydd. Roedd un yn monitro cynnydd mewn ffordd ffurfiannol ar hyn o bryd, ond roedd yn mynd ati i edrych ar opsiynau eraill.

## Cymwysterau

Dywedodd dwy ysgol wrthym eu bod yn poeni am sut y gall yr hyblygrwydd a gynigir gan y cwricwlwm newydd o bosibl gyd-fynd â set sefydlog a chyson o gymwysterau. Roedd un o'r ysgolion hynny'n poeni y byddai rhaid i ysgolion uwchradd addysgu gan baratoi ar gyfer arholiadau TGAU y mae eu canlyniadau yn fetrig perfformiad allweddol, sy'n tanseilio ethos cyfan y cwricwlwm newydd.

## Cydweithio ag ysgolion eraill

Dywedodd Ysgol y Deri wrthym ei bod yn rhan o glwstwr prif ffrwd lleol a rhwydwaith o ysgolion arbennig. Mae hyn yn ddefnyddiol, ond gall gweithio ochr yn ochr ag ysgolion arbennig eraill fod yn anodd oherwydd bod pob ysgol mor anghysbell. Dywedodd yr ysgol wrthym hefyd y gall fod yn anodd dod o hyd i ganllawiau mewn un lle er ei bod yn gwybod eu bod ar gael i ysgolion. Byddai 'pecyn cymorth' Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion arbennig yn ddefnyddiol.

## Cysylltiadau â'r system ADY

Siaradodd rhai ysgolion am y potensial i'r cwricwlwm newydd ganiatáu ar gyfer lefelau uwch o wahaniaethu oddi wrth athrawon, sy'n golygu y gallai plant na allent gael mynediad i'r cwricwlwm yn flaenorol, ac felly bod angen darpariaeth ychwanegol, bellach yn cael eu haddysgu mewn ffordd fwy cynhwysol.

Er enghraifft, esboniodd un ysgol y gall nawr addysgu rhywbeth i blentyn ym mlwyddyn 4 a fyddai'n draddodiadol yn cael ei addysgu i ddisgybl blwyddyn 1, oherwydd mai dyna sy'n iawn iddo. Gall hynny olygu *nad* oes angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol arno, oherwydd bod y cwricwlwm newydd yn diwallu ei anghenion.

Roedd ysgol arall wedi sefydlu dosbarth ADY i ddisgyblion iau, i'w helpu i ddal i fyny gyda'r disgyblion eraill yn eu grŵp oedran.

Roedd un ysgol yn teimlo'n gryf y byddai'r cwricwlwm newydd a'r diwygiadau ADY, mewn byd delfrydol, wedi cael eu cynllunio a'u gweithredu gyda'i gilydd o'r dechrau, o ystyried y ffaith eu bod yn gysylltiedig â'i gilydd:

> *"A good curriculum should meet the needs of all pupils, including pupils with ALN."*

Dywedodd ysgolion eraill wrthym ei bod yn her sylweddol gweithredu'r ddau ddiwygiad addysg ar yr un pryd. Pwysleisiodd un fod yr her hon yn arbennig o ddifrifol o ystyried effaith barhaus y pandemig ar ei dysgwyr a'u teuluoedd.

# 3. Meysydd trafod eraill

## Cyllid

### Materion cyllid cyffredinol

Pwysleisiodd rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw fod cyllid yn bryder mawr i'r uwch-dîm arwain a'r llywodraethwyr. Dywedodd yr ysgolion hyn wrthym fod eu cyllid yn ddigon heriol iddynt orfod dewis a ddylid blaenoriaethu staffio neu adnoddau. Clywsom y bydd ysgolion, ar y cyfan, yn blaenoriaethu staffio.

Dywedodd un ysgol wrthym nad oes gan rai o'u disgyblion mwyaf difreintiedig y pethau sylfaenol fel deunydd ysgrifennu. Mae rhai athrawon yn darparu hyn eu hunain.

Dywedodd Ysgol y Deri, sy'n ysgol arbenigol â 600 o ddysgwyr 3-19 oed ar draws 5 safle i gyd, ei bod yn cael cyllid cymharol dda oherwydd y ddarpariaeth arbenigol y mae'n ei sicrhau. Roedd yn cydnabod bod hyn yn rhoi pwysau sylweddol iawn i'r awdurdod lleol o ran costau. Roedd yn cydnabod bod y rhan fwyaf o ysgolion prif ffrwd yn ei chael yn anodd yn ariannol.

### Cefnogi disgyblion mewn teuluoedd incwm isel

Eglurodd un ysgol fod dros 90 y cant o'i charfan yn y degwm mwyaf difreintiedig. Felly, nid yw darpariaeth ar gyfer disgyblion y mae eu rhieni/gofalwyr yn cael budd-daliadau penodol ac sydd felly wedi bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn sylweddol wahanol i'r ddarpariaeth ar gyfer holl ddisgyblion yr ysgol.

Dywedodd un ysgol wrthym fod hawlio cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion nawr bod yr ysgol yn darparu prydau ysgol am ddim wedi bod yn syml – daw'r niferoedd drwy daenlen gan yr awdurdod lleol sy'n nodi pa deuluoedd sy'n cael y budd-daliadau perthnasol.

## Recriwtio a chadw staff

Codwyd pryderon ynghylch recriwtio a chadw staff gyda ni yn ystod y pedwar ymweliad.

Pwysleisiodd un pennaeth fod argyfwng recriwtio mewn addysg, yn enwedig ymhlith cynorthwywyr addysgu. Eglurwyd bod cyflogau cynorthwywyr addysgu yn llawer rhy isel yn y bôn, yn enwedig o ystyried eu bod yn cael eu talu pro-rata. Mae angen swyddi eraill ar gynorthwywyr addysgu i ennill digon. Roedd y pennaeth yn cwestiynu hynt y gwaith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar delerau ac amodau cynorthwywyr addysgu, gan awgrymu mai codi cyflogau cynorthwywyr addysgu yw'r ateb syml a allai ddod ag argyfwng recriwtio staff cymorth addysgu i ben. Roedd y pennaeth hefyd yn argymell newid o'r cymwysterau gofynnol ar gyfer staff cymorth addysgu o blaid dull galwedigaethol sy'n seiliedig ar brofiad.

Bu rhai ysgolion yn trafod gyda ni yr her o recriwtio cynorthwywyr addysgu ac athrawon Cymraeg eu hiaith yn benodol. Dywedodd un ysgol wrthym fod y sefyllfa wedi gwaethygu ers COVID, a dadleuodd fod disgwyl bellach i athrawon allu gwneud llawer mwy nag addysgu i gefnogi eu dysgwyr. Ychwanegwyd y gallai cau cwrs hyfforddi athrawon Prifysgol Aberystwyth yn ddiweddar wneud y sefyllfa'n waeth.

Dywedodd Ysgol y Deri wrthym fod Llywodraeth Cymru wedi cael ei pherswadio o'r blaen i ganiatáu i'r llwybr mynediad i raddedigion gael ei ddilyn mewn ysgol arbennig. Fodd bynnag, mae Cyngor y Gweithlu Addysg a Llywodraeth Cymru wedi mynnu ers hynny fod rhaid ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn ysgol brif ffrwd. Roedd y pennaeth yn teimlo mai'r penderfyniad anghywir oedd hwn, a bod hyn wedi rhwystro cynorthwywyr addysgu rhag datblygu eu gyrfa, ac yn y pen draw bod angen profiad ar bob athro o weithio gyda disgyblion ADY.

## Llwyth gwaith athrawon

Dywedodd rhai ysgolion wrthym fod addysgu o dan y systemau newydd yn well i'r plentyn – dylai darpariaeth gyffredinol allu cefnogi pob dysgwr. Fodd bynnag, mae'n llawer mwy dwys o ran gwaith i athrawon. Esboniodd un pennaeth fod gennych werslyfrau yn flaenorol y byddech yn rhedeg drwyddynt i addysgu plant. Erbyn hyn, mae'r addysgu wedi'i deilwra i'r plentyn unigol. Mae'n hynod heriol gwneud hynny ar gyfer 20-30 o blant, gan ystyried gwahaniaethu, anghenion ADY ac ati.

Tynnodd un ysgol sylw at faint o waith gweinyddol y mae athrawon yn ei wneud a'r disgwyliadau ar eu hamser, gan gynnwys yr amser i ymdrin â chwynion gan rieni, fel materion llwyth gwaith sy'n gwaethygu.

Roedd un ysgol yr ymwelwyd â hi wedi defnyddio'r dull o roi amser CPA diwrnod llawn i athrawon bob pythefnos (yn hytrach na hanner diwrnod yr wythnos), y gallant ei wneud gartref os ydynt yn dymuno. Roedd athrawes yn yr ysgol yn teimlo bod hyn yn ddefnyddiol iawn oherwydd nad yw materion addysgu yn torri ar ei thraws, a bod ganddi fwy o amser i wneud y rhannau o'i swydd nad ydynt yn cynnwys cysylltu â phobl eraill.

Dywedodd un ysgol wrthym ei bod wedi ymgorffori meintiau dosbarthiadau bach ar draws grwpiau blwyddyn i gefnogi dysgu plant. Mae athrawon hefyd wedi sylwi bod meintiau dosbarthiadau llai yn cael effaith gadarnhaol iawn ar lwyth gwaith, sy'n fantais allweddol arall i'r ysgol.

## Ymddygiad

Nododd rhai o'r ysgolion y buom yn siarad â nhw gynnydd mewn problemau ymddygiadol, yn enwedig ymhlith disgyblion oedran ysgol uwchradd. Roedd un ysgol yn teimlo mai'r pandemig oedd prif achos y cynnydd hwn, a dywedodd un arall wrthym fod y cynnydd mewn problemau ymddygiadol wedi digwydd cyn y pandemig.

Clywsom fod ysgolion yn ymaddasu i faterion ynghylch adnoddau ar lefel awdurdod lleol i ddarparu cymorth ymddygiadol arbenigol i'w disgyblion.

Esboniodd un pennaeth fod gan yr ysgol ei huned asesu ei hun, sy'n ceisio deall y rhesymau dros ymddygiad y plentyn, yn hytrach na'u heithrio. Mae rhai o'r plant sy'n mynd i'r uned yn dod yn ôl i'r ysgol, ond mae plant eraill yn symud i ddarpariaeth arbenigol.

Dywedodd ysgol arall yr ymwelwyd â hi wrthym ei bod wedi sefydlu ei darpariaeth fewnol ei hun ar ffurf Uned Cyfeirio Disgyblion oherwydd bod prinder lleoedd ar gael mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion yn ei hawdurdod lleol. Mae hyn yn dod â chost sylweddol.

## Cefnogi dysgwyr mewn dosbarthiadau cyfan

Dywedodd un ysgol wrthym ei bod yn aml yn ceisio cadw plant gyda'r un staff addysgu wrth iddynt symud i fyny grwpiau blwyddyn, os yw'r tîm arwain yn credu y byddai hynny o fudd i'r dysgwyr. Mae hyn yn arbennig o effeithiol ar gyfer cefnogi plant ag anghenion ychwanegol, sy'n aml yn dibynnu ar y berthynas gref â'u hathro y maent wedi'i meithrin dros y flwyddyn. Roedd yr ysgol wedi ystyried rhoi plant mewn setiau ar gyfer rhai pynciau, ond penderfynodd y byddai hynny'n gwahanu plant oddi wrth athrawon a'r staff sy'n eu hadnabod orau.

Dywedodd un ysgol wrthym ei bod wedi buddsoddi'n sylweddol mewn meintiau dosbarthiadau llai, ac roedd yn teimlo bod hynny'n cefnogi pob dysgwr, ond yn enwedig dysgwyr ag anghenion ymddygiadol, cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys plant â CDUau. Er mwyn sicrhau bod athrawon ychwanegol ar gael i ddarparu ar gyfer dosbarthiadau llai, Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch profiadol, yn hytrach nag athrawon meithrin, sy'n goruchwylio'r cyfnod meithrin o ddydd i ddydd.

## Heriau i deuluoedd

Clywsom gan rai ysgolion fod effaith y pandemig, tlodi a materion cymdeithasol eraill yn effeithio ar ddatblygiad plant. Dywedodd un ysgol wrthym ei bod yn gweld mwy a mwy o blant sy'n cael trafferth o ran sgiliau sylfaenol sy'n briodol i'w hoedran. Roedd staff yr ysgol yn teimlo nad yw rhieni bob amser yn cyfathrebu â'u plant cystal ag y gallent, felly nid yw sgiliau cymdeithasol llawer o blant fel y gallent fod. Mae'n ymddangos bod hyn yn wir mewn ardaloedd difreintiedig a chyfoethog.

> *"The school has become an extra arm of social services."*

## Safonau ysgolion

Clywsom fod sgiliau yn y sector cynradd yn seiliedig ar gynnwys, ac y dylai sgiliau fod yn seiliedig ar gynnwys a gwybodaeth yn y sector cynradd.

Clywsom hefyd fod llawer o arian wedi'i wario ar yr haen ganol o wella ysgolion (consortia rhanbarthol), ac nad oes llawer i'w ddangos amdano ac mai ychydig iawn o atebolrwydd sydd amdano.

## Arolygiadau ysgolion

Roedd staff a llywodraethwyr ysgolion yn teimlo nad yw fframwaith arolygu Estyn wedi dal i fyny â'r newid mewn diwylliant sydd wedi'i wreiddio yn y cwricwlwm newydd.

Siaradodd un ysgol â ni'n angerddol am ddifrod prif ddyfarniadau un gair gan Estyn. Dywedodd y pennaeth wrthym y dylem fod yn rhoi ein penaethiaid gorau yn yr ysgolion mwyaf heriol, gan roi'r amser a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Roedd yn teimlo mai hunan-adolygu ac adolygu gan gymheiriaid – a allai fod yn brosesau gonest ac adeiladol iawn - yw'r ffordd ymlaen.